

# Adnodd Ysgolion

**gan Sarah McCreadie**

Bardd EWRO 2025 Cymru

Llenyddiaeth Cymru
Literature Wales

Ariennir gan
**Lywodraeth Cymru**
Funded by
**Welsh Government**




# Yn Galw Plant Creadigol Cymru!

Ym mis Hydref 2024, fe wnaethom ni ofyn i chi ysgrifennu cerddi i ddangos eich cefnogaeth i dîm Cymru wrth iddyn nhw baratoi i chwarae gemau ail gyfle Ewro Merched UEFA.

## Ac roeddech chi'n anhygoel!

Fe wnaethoch chi 'sgwennu dros 400 o gerddi, a chafodd y cyfan eu dangos i'r chwaraewyr er mwyn eu hysbrydoli cyn iddyn nhw wynebu Slofacia ddydd Mawrth 29 Hydref.

# Dywedodd Angharad James, Capten Cymru:

*Rydym wedi ein hysbrydoli gymaint gan y gefnogaeth gan ysgolion a phlant ledled Cymru, mae'n golygu'r byd i ni. Mae darllen y cerddi hyn sy'n llawn angerdd, balchder a chreadigrwydd wedi rhoi hwb ychwanegol i ni.*

*Diolch yn fawr iawn i bob plentyn sydd wedi ysgrifennu cerdd i ni, mae gwybod eich bod chi y tu ôl i ni ar y daith hon yn hynod bwerus. Byddwn yn mynd â'ch geiriau gyda ni ar y cae. Diolch o galon!*




# Ac fe weithiodd!

Gwnaeth Cymru'n wych, ac erbyn hyn maen nhw yn y Swistir yn cymryd rhan yn eu twrnamaint pêl-droed mawr cyntaf erioed.

Dyw pawb ddim yn gallu mynd i'r Swistir i ddilyn a chefnogi'r tîm, felly rydym wedi gofyn i'r bardd Sarah McCreadie ddilyn y garfan i Lucerne ac ymlaen i St Gallen, gan eu cefnogi wrth iddynt herio'r Iseldiroedd, Ffrainc a Lloegr. Mae hi'n sgwennu cerddi am ei hamser yno, gan ganu clod i'r tîm a dathlu eu taith hanesyddol.

**Gallwch wylio cerddi fideo Sarah ar dudalen YouTube Llenyddiaeth cymru:**

**www.youtube.com/@LiteratureWales**



© FAW


© FAW

Roedd Sarah wrth ei bodd gyda'r cerddi a ysgrifennoch chi i gefnogi Cymru cyn y gemau ail gyfle, a oedd yn llawn creadigrwydd, egni ac ysbrydoliaeth.

Ac mae ganddi dasg arall i chi!

# Y Dasg

# Cymru a Fi

Sut wyt ti'n teimlo pan wyt ti'n gwylio Cymru? Mae barddoniaeth yn ffordd wych o fynegi dy hun ac mae dy safbwynt yn unigryw! Galli di ysgrifennu cerdd am gêm y gwnest ti ei fynychu, neu un y gwnest ti ei gwylio ar y teledu, neu efallai beth mae tîm menywod Cymru yn ei olygu i ti!

# Rydych chi i gyd yn feirdd gyda stori i'w hadrodd!

**Awgrym:**

I wneud dy gerddi hyd yn oed yn fwy creadigol, beth am ddefnyddio'r holl synhwyrau? Gall hyn wneud i dy eiriau deimlo'n fyw a neidio oddi ar y dudalen fel gôl adlam! Alli di gynnwys y 5 synnwyr yn dy gerdd? Beth wyt ti'n ei glywed pan fyddi di'n gwylio gêm? Beth wyt ti'n ei weld? Alli di deimlo'r croen gŵydd? Arogli'r glaswellt gwlyb? Ac efallai y byddi di'n cael rhywbeth blasus i'w fwyta yn ystod hanner amser!

# Esiampl - cerdd gan Sarah McCreadie:

## Cymru v Slovakia, Hydref 29ain 2024

Mae hi'n gwrido mewn coch, ei gêm gyntaf
Mae eu gwalltiau hwythau mewn cynffonau hefyd
Y glitter y dewisodd ar ei hwyneb yn disgleirio
dan y llifoleuadau
Wedi gwirioni
I weld menyw yn gwisgo coch
I glywed enwau fel ffrindiau yn y dosbarth
Kayleigh, Hannah, Ffion
yn cael eu canu fel emyn

Mae hithau'n canu hefyd
Cymru
Cymru
Cymru
Yn ymuno â'r côr di-ben-draw
Ei llais yn arnofio
tuag at y cae
ar hyd yr ystlys
i mewn i'r blwch
Gôl

# I Athrawon: Helpwch eich dysgwyr i ehangu ar y synhwyrau

**Gweld:** Beth welwch chi mewn gêm Cymru? Beth welwch chi ar y cae? Efallai y gallech chi ysgrifennu am yr holl liwiau, y dorf neu sut olwg sydd arno pan rydyn ni'n sgorio gôl!

**Clywed** Beth ydych chi'n ei glywed? Sut mae'r Wal Goch yn swnio? Sut mae'n swnio pan mae'r bêl yn taro cefn y rhwyd?

**Blasu** Mae hwn yn fwy o her ond fyddwch chi'n llwyddo! Efallai bod gennych chi rywbeth blasus i'w fwyta yn ystod hanner amser!

**Arogli:** Meddyliwch am y pethau y gallwch chi eu haroglo ar yr awyr, o'r glaswellt gwlyb i'r faniau byrgyrs.

**Cyffwrdd:** Sut mae chwaraewr yn teimlo pan mae hi'n cicio pêl? Neu pan mae hi'n gwneud arbediad pwysig? Neu efallai pan mae hi'n llithro ar hyd y cae i ddathlu gôl!


MCALLISTER WENDY REILLY
GREEN NICKY DAVIES GWENN
JAYNE LUDLOW
EMMA JONES
For her
The power is in your heart
Run like the wind.
Fight for victory like the dragon
We Believe in you -
Believe in yourself.
Work together to win it
The luck is with you.
Jamie Sewell
on the Pit
CYMRU
#FORHER
CYMRU
FOR HER
© FAW

# Barod?

//

Amser 'Sgwennu!

Bydden ni wrth ein boddau yn gweld dy waith. Beth am ffilmio perfformiad neu ddarlleniad o'r gerdd? Neu dynnu llun ohono? Yna rhannu ar blatfform cyfryngau cymdeithasol dy ysgol*!  Galli sgwennu ar ben dy hun, mewn parau, neu fel grŵp / fel dosbarth.

Cofia dagio Llenyddiaeth Cymru, a defnyddio'r hashnodau canlynol:

#CymruAFi  #AmdaniHi  #ForHer  #TîmCymru  #TeamCymru

Instagram: @llencymru_litwales
Facebook: LlenCymruLitWales

* Dim cyfryngau cymdeithasol? Dim problem!
Darllena ymlaen i weld ffordd arall i rannu dy waith gyda ni.

# Y Print Mân

- Os nad oes gan eich ysgol gyfryngau cymdeithasol, ond eich bod yn fodlon i Llenyddiaeth Cymru a'i bartneriaid rannu cerddi a fideos, anfonwch eich cerdd a'ch caniatâd i pel-droed@llenyddiaethcymru.org gyda'ch enw cyntaf, oedran a naill ai enw'r pentref/tref/dinas lle mae'r plant yn byw neu'r ysgol maen nhw'n ei mynychu.
- Bydd cerddi'n cael eu harddangos gyda'r wybodaeth ganlynol: Enw Cyntaf, Oedran, Lleoliad h.y. Tomos, 9, Aberystwyth / Ysgol Gymunedol Plascrug.
- Rydym yn croesawu cerddi gan blant hyd at 16 oed.
- Bydd croeso i chi anfon cerddi a ysgrifennwyd fel grŵp hefyd. Nodwch y dosbarth/blwyddyn ysgol a'r ysgol e.e. Cerdd gan Flwyddyn 4, Ysgol Gynradd Mount Stuart.

Llenyddiaeth
Cymru
Literature
Wales

Ariennir gan
**Lywodraeth Cymru**
Funded by
**Welsh Government**